Cyd-bwyllgor Corfforedig
De-orllewin Cymru
Corporate Joint Committee for
South West Wales

# Fersiwn hawdd ei ddarllen o'n Cynllun Corfforaethol 2023- 2028.

# Cynnwys

Beth yw'r Cynllun Corfforaethol ? .................................................. 2
Ein gweledigaeth ar gyfer de-orllewin Cymru 2035........................ 3
Ein nod.......................................................................................... 4
Ein hamcanion llesiant. ................................................................. 4
Ein hamcan cydraddoldeb ............................................................ 5

# Beth yw'r Cynllun Corfforaethol ?



Mae Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru yn gorff rhanbarthol ar gyfer de-orllewin Cymru a fydd yn gweithio ym meysydd llesiant economaidd, ynni, trafnidiaeth ranbarthol a chynllunio strategol rhanbarthol. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn dangos y cynnydd y mae'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol wedi'i wneud hyd yma a'r hyn rydym am ei gyflawni yn y blynyddoedd i ddod.



Ein nod yw gwireddu ein gweledigaeth am sut rydym am i dde-orllewin Cymru edrych yn 2035. Rydym wedi pennu tri amcan llesiant a fydd, yn ein barn ni, yn ein helpu i wireddu'r weledigaeth hon a, drwy gydweithio, rydym yn teimlo y gallwn gyrraedd ein nod, hyd yn oed mewn cyfnod lle mae cyllidebau awdurdodau lleol o dan bwysau.



Rhwng Ionawr 26 a Mawrth 8 2023 fe wnaethom roi cyfle i bawb ddweud eu dweud ar ein Cynllun Corfforaethol. Ar 30 Mawrth 2023, edrychodd ein Haelodau ar y sylwadau a daeth i law cyn cymeradwyo y Cynllun Corfforaethol. Gallwch weld y Cynllun terfynol yma.

# Ein gweledigaeth ar gyfer de-orllewin Cymru 2035

“Erbyn 2035 bydd De-orllewin Cymru yn lle i bobl fyw a gweithio mewn rhanbarth cydnerth, cynaliadwy, mentrus, uchelgeisiol ac sy’n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd sy’n cael ei wasanaethu gan seilwaith digidol o’r safon uchaf ac ar y llwybr cywir i gyflawni economi sero net carbon erbyn 2050, sydd wedi cyrraedd ei darged datgarboneiddio sector cyhoeddus yn barod. Mae'r rhanbarth yn rhan annatod o Gymru ac yn gwneud cyfraniad cryf at Gymru fel cenedl gyfan.

Bydd yn rhanbarth nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy. Bydd yno fannau gwledig bywiog gyda mynediad at gartrefi, swyddi a gwasanaethau, tra bydd pobl hefyd yn byw ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy. Bydd ffyniant, arloesedd a diwylliant yn cael eu hyrwyddo yn y rhanbarth ac mae pwysigrwydd sector amaethyddol cynaliadwy ac ymgysylltu yn cael ei gydnabod yn llawn.

Rhanbarth ffyniannus, gwydn a theg sy’n gwneud y mwyaf o’i botensial ar y tir a’r môr, mae De-orllewin Cymru yn fan lle mae’r iaith Gymraeg yn ffynnu ac mae’r rhanbarth yn parhau i fod yn gyfrannwr allweddol at y targed cenedlaethol o gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Dangosir cydweithio effeithiol rhwng gwneuthurwyr penderfyniadau a newidiadau’r rhanbarth o bob sector – gan gynnwys diwydiant preifat – trwy’r ffaith bod Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn parhau i gyflawni ei holl swyddogaethau’n effeithiol. Y rhanbarth yn parhau i deimlo mantais portffolio buddsoddi Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Mae’r angen i gryfhau llesiant cenedlaethau’r dyfodol ac ecosystemau wedi eu hymwreiddio yn gadarn yn y strwythurau llunio penderfyniadau sy’n gytbwys a chynhwysol ac sy’n cydnabod yr angen i reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy a lleihau llygredd gan arwain at fannau gydag ecosystemau bioamrywiol, gwydn a chysylltiedig. Pobl yn byw a gweithio mewn mannau cysylltiedig, cynhwysol ac iach gyda system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon a lle mae teithio yn gynaliadwy.”

# Ein nod

Rydym eisiau cyflawni ein gweledigaeth ar gyfer 'De-orllewin Cymru 2035'. Rydym yn gwybod i ble yr ydym am fynd, ac yn awr mae arnom angen mapio sut yr ydym yn mynd i gyrraedd yno. Mae hyn yn golygu mai ein nod yn ystod y 5 mlynedd nesaf hyd at 2028 yw:

- Cwblhau'r holl agweddau cyfansoddiadol, corfforaethol a llywodraethu o rhan ein sefydlu erbyn diwedd 2023;

- Cyflawni gwelliant diriaethol o ran llesiant economaidd y rhanbarth;

- Arwain y rhanbarth yn weladwy ymhellach ar hyd ei daith tuag at sero net;

- Symud ymlaen ar ffurfio Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i'r rhanbarth; a

- Symud ymlaen ar ffurfio Cynllun Datblygu Strategol i'r rhanbarth.

# Ein hamcanion llesiant.

**Amcan 1**
Cyflawni'n gydweithredol y Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol a'r Strategaeth Ynni Ranbarthol a thrwy hynny wella llesiant economaidd digarbon De-orllewin Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Amcan 2**
Cynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru sy'n seiliedig ar gydweithio ac yn galluogi cyflawni system drafnidiaeth sy'n dda ar gyfer ein cenedlaethau presennol a dyfodol o bobl a chymunedau, yn dda i'n hamgylchedd ac yn dda i'n heconomi a'n lleoedd (gwledig a threfol).

**Amcan 3**
Cynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer De-orllewin Cymru sy'n gadarn, yn un y gellir ei gyflawni, wedi ei gydlynu ac yn unigryw i'r ardal, sy'n seiliedig ar ymgysylltu a chydweithio â rhanddeiliaid ac sy'n nodi graddfa a lleoliad twf yn y dyfodol i genedlaethau'r dyfodol yn glir.

## Ein hamcan cydraddoldeb

“Cyflawni De-orllewin Cymru mwy cyfartal erbyn 2035 trwy gyfrannu at:

(a) Cyflawni nod cydraddoldeb hirdymor Llywodraeth Cymru o ddileu anghydraddoldeb sy’n deillio o dlodi;

(b) Cyflawni’r Datganiad cydraddoldeb a nodir yn Llwybr Newydd sef gwneud ein gwasanaethau trafnidiaeth a’n seilwaith yn hygyrch a chynhwysol trwy anelu at gael gwared ar y rhwystrau ffisegol, agweddol, amgylcheddol, systemig, ieithyddol ac economaidd sy’n atal pobl rhag defnyddio trafnidiaeth gynaliadwy, a

(c) Cyflawni nodau cydraddoldeb hirdymor Llywodraeth Cymru o gymunedau cydlynus, sy’n gydnerth, teg a chyfartal a lle mae pawb yn gallu cymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol, cyhoeddus a phob dydd. Bydd dim lle i hiliaeth a / neu gwahaniaethu o unrhyw fath.”